Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

DE SAEDELEER, ELISABETH (1902 - 1972), artist tecstiliau

Enw: Elisabeth de Saedeleer
Dyddiad geni: 1902
Dyddiad marw: 1972
Rhiant: Clementina de Saedeleer (née Limpens)
Rhiant: Valerius Victor Emiel Marie de Saedeleer
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: artist tecstiliau
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth
Awdur: Caterina Verdickt

Ganwyd Elisabeth de Saedeleer ar 17 Awst 1902 yn Sint Martens Latem, pentref ger Ghent yng Ngwlad Belg, yr ail o bump o ferched yr arlunydd Valerius de Saedeleer (1867-1941) a'i wraig Clementina (g. Limpens, 1867-1930). Yn ddeuddeg oed, yn fuan wedi dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ymadawodd Elisabeth a'i theulu gyda Gustave van de Woestijne (1881-1947) a George Minne (1866-1941) and their families via Ostend to Wales a'u teuluoedd a theithio trwy Ostend i Gymru. Gwahoddwyd yr arlunwyr Belgaidd hyn i Aberystwyth gan y teulu Davies o Llandinam: David, Gwendoline a Margaret Davies. Yn wahanol i'r cymorth elusennol, digynllun gan amlaf, a roddwyd i artistiaid o Wlad Belg mewn rhannau eraill o'r DU yn ystod y rhyfel, roedd yr achos hwn yn rhan o bolisi diwylliannol pwrpasol, sef ymgais i gyfoethogi byd celf Cymru trwy groesawu artistiaid estron profiadol.

Ymgartrefodd Elisabeth a'i theulu mewn tŷ o'r enw 'Tynlon' yn Rhydyfelin ger Aberystwyth. Dechreuodd y tad weithio'n syth ac ymsefydlu'n fuan yng nghylchoedd celf Aberystwyth. Roedd cefnogaeth y teulu Davies yn sicr yn llesol i'r artistiaid o Wlad Belg, ac fe gafodd effaith anuniongyrchol ar eu gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir am ferched Valerius de Saedeleer, Marie ac yn enwedig Elisabeth, a ddysgodd wau yng Nghymru. Gwnaethant eu gweithiau cyntaf ar sail darluniau gan eu tad, a weithredodd fel eu dylunydd personol. Roedd prinder arian yn destun pryder cyson i'r teulu, a phan fu i Valerius gwrdd ag un o gyn-weithwyr William Morris, awgrymodd hwnnw y dylai ei ferched ymgymryd â gwau. Byddai merched yn aml yn rhan o'r broses greadigol yng nghylchoedd William Morris, yn groes i arfer gyffredin y cyfnod o'u cau allan o waith proffesiynol. Yn ôl un ffynhonnell, roedd Valerius wedi breuddwydio am sefydlu 'atelier' ers pan oedd ei ferched yn ifanc iawn. Ei nod oedd adfywio crefft hynafol gwau tapestrïau a disgwyliai i'w ferched fod yn rhan o'r fenter. Mae'n bosibl fod Elisabeth wedi cael peth hyfforddiant hefyd gan May Morris, merch William, gan fod y ddwy'n bendant yn adnabod ei gilydd.

Yn y pen draw symudodd y teulu de Saedeleer yn ôl i Wlad Belg yng ngwanwyn 1921, gan ymgartrefu yn Etikhove ac enwi eu tŷ yn 'Villa Tynlon' ar ôl eu cartref yng Nghymru. Aethant ati i sefydlu eu stiwdio Celfyddyd a Chrefft eu hun yn Etikhove, a ddaeth yn ganolfan ar gyfer technegau gwau modernaidd yng Ngwlad Belg, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgasent yng Nghymru. Elisabeth a gymerodd y llyw yn y gweithle, gan drosglwyddo'r dyluniau i'r maint angenrheidiol a phaentio'r cardiau samplau ei hun. Yn nyddiau cynnar y stiwdio, cynhyrchodd dapestri, nwyddau bwrdd, dillad a ffabrig dodrefnu. Mae ei hoffter o ffurfiau geometrig cynnil ac arlliwiau mwyn yn debyg i waith Rennie Mackintosh ac yn deillio o'i chyfnod yn alltud ym Mhrydain.

Yn ystod y 1920au a'r 1930au, daeth stiwdio Elisabeth de Saedeleer yn enwog am orchuddion llawr clymog lliwgar a llachar, carpedi murol a ffabrigau ar gyfer sgarffau a llieiniau bwrdd. Mae dylanwad traddodiad William Morris a thechnegau gwau Celfyddyd a Chrefft yn amlwg yn y defnydd o locedi canolog ac arabesgau. Yn 1925, cyhoeddodd y beirniad celf Belgaidd dylanwadol Luc Haesaerts ddwy erthygl helaeth ar gelfyddyd Elisabeth de Saedeleer. Gosodwyd ei gwaith hefyd ym Masilica Genedlaethol y Galon Gysegredig yn Koekelberg, un o gofadeiliau Art Deco enwocaf Gwlad Belg. Yn ystod ei gyrfa gwnaeth dapestri yn seiliedig ar ddyluniadau llawer o artistiaid o fri rhyngwladol megis Ossip Zadkine, Michel Seuphor a Marc Chagall. Enillodd enw da am ansawdd ei gwaith a'i chleientiaid, ac yn 1927 fe'i gwahoddwyd gan Henry van de Velde i ddysgu yn La Cambre, yr ysgol gelfyddyd a dylunio newydd ym Mrwsel. Yno, yn 25 oed, ac yn un o'r ychydig ferched, roedd Elisabeth wrth galon bywyd celfyddydol Gwlad Belg.

Bu'r alltudiaeth a drefnwyd i'w theulu yn Aberystwyth yn allweddol bwysig yng ngyrfa Elisabeth de Saedeleer, gan mai yno y cafodd hyffordiant mewn technegau gwau ac y daeth dan ddylanwad athroniaeth Celfyddyd a Chrefft. Ar ôl iddi ddychwelyd i Wlad Belg enillodd ei sgiliau a'i dyluniadau arloesol safle unigryw iddi yn ei gwlad ei hun.

Bu Elisabeth de Saedeleer farw yn Etikhove ar 27 Mehefin 1972.

Awdur

Caterina Verdickt

Ffynonellau

C. Stewart, 'Een experiment in cultuurbeleid: Het mecenaat van Gwendoline en Margaret Davies en de Belgische kunstenaars in Wales 1914-1918', yn Robert Hoozee and Caterina Verdickt (gol.), *Kunst in ballingschap* (Antwerp 2002), tt. 40-45

C. Verdickt, Belgische kunstenaars in Groot-Brittannië tijdens de Eerste Wereldoorlog 1914-1918, licentiaatsverhandeling, KU Leuven, 1999

L. Haesaerts, 'Tapijten der juffrouwen De Saedeleer' and 'De Tapijtkunst van de gezusters De Saedeleer', *Onze Kunst*, XLI, nrs 1-2, XLII, nrs 9-10 (1925)

E. Janssen, 'Creating Textiles in Belgium During the 20th Century: A large weaving manufacturer, a small textile studio and a contemporary textile designer', *Creating Textiles: Makers, Methods, Markets* (New York 1999), t. 267

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96668029

Wikidata: Q43266283

Dyddiad cyhoeddi: 2024-08-29

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Verdickt, C., (2024). DE SAEDELEER, ELISABETH (1902 - 1972), artist tecstiliau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Medi 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c15-DESA-ELI-1902

Copïo'r cliptrwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government